

Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Haf

2022

GERDDI AGORED DOLWYDDELAN, 2022

Dydd Sadwrn 4^{ydd} o Fehefin 2022. 10.30yb – 4.00yp

Mae 'Gerddi Agored' yn dychwelyd eleni. Bydd gerddi ar agor i'w hymweld o gwmpas y pentref a bydd busnesau lleol yn cymryd rhan hefyd. Bydd bwyd, cacennau a phaned ar gael yn ystod y diwrnod gyda chrefftau lleol a phlanhigion ar werth. Bydd yr arian o'r tocynnau yn mynd tuag at gynnal a chadw'r Eglwys a gall gerddi unigol benderfynu codi arian at ba bynnag achos y dymunant.


Bydd tocynnau a mapiau ar gael o Eglwys Sant Gwyddelan o 10yb ar ddydd Sadwrn a chofiwch edrych ar dudalen Facebook yr eglwys am unrhyw wybodaeth funud olaf.

Pris tocyn ydy £5 i oedolion a phlant am ddim.

Gallwch barcio ar y ffordd y tu allan i'r Eglwys neu ym maes parcio talu ac arddangos yr orsaf yn unig.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi gyd o gwmpas y pentref dros y penwythnos.

Sue Layland



I gysylltu â'r Pafiliwn – 01690 750 490 (peiriant ateb)

Os ar frys cysylltwch ag un o'r canlynol -

Paul Donnelly 07534 120 193 Bob Valintine 01690 750 205

Teleri Jones 07776 192 297 Eunice Cawley 01690 750 268

mentersiabod@googlemail.com

Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol
Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ